

Cartrefoli'r Chwyldro: Cyfieithu ar gyfer y Cymry uniaith yn y 1790au

Astudiaethau cyfieithu a'r cyfnod Rhamantaidd

Mae astudiaethau cyfieithu wedi hen adael eu safle ar gyrion beirniadaeth lenyddol.¹ Bellach ystyrir cyfieithu a chyfieithiadau yn rym gyriadol a chanolog o fewn hanes llenyddiaeth.² Mewn cyd-destun aml-ddiwylliannol, wrth gwrs, mae ffocws ar gyfieithu yn arbennig o berthnasol, oherwydd yma mae cyfieithu yn weithred feunyddiol os nad hollbresennol. A phan mae statws ieithoedd yn anghybwys, mae cyfieithu hefyd yn weithred â chynodiadau gwleidyddol. Mae perthnasedd astudiaethau cyfieithu i Gymru heddiw yn ogystal â Chymru ddoe felly yn ddiamheuol, fel y dengys Helena Miguélez-Carballeira, Angharad Price a Judith Kaufmann yn eu rhagarweiniad diweddar i rifyn arbennig o *Translation Studies*.³ Mae diwedd y ddeunawfed ganrif yn gyfnod arbennig o gyffrous yn hanes cyfieithu yn niwylliant Ewrop a hefyd yng Nghymru. Yn ôl Fania Oz-Salzberger, roedd yr ymchwydd mewn cyfieithu a welwyd ar draws Ewrop yn y ddeunawfed ganrif, yn rhan gwbl anhepgor o'r Oleuedigaeth.⁴ Dyma pryd y llithrodd gwybodaeth o ddwylo y rhai breintiedig a fyddai'n medru darllen cynnyrch printiedig diwylliannau Ewrop yn yr ieithoedd gwreiddol i ddwylo darllenwyr newydd uniaith, megis y 'Cymry uniaith' a gyferchir ar dudalennau blaen nifer o destunau Cymraeg y cyfnod. Am y tro cyntaf, meddai Oz-Salzberger, roedd modd caffael gwybodaeth trwy gyfrwng ieithoedd brodorol, heb fod angen Lladin, Ffrangeg neu Saesneg.⁵ Gan adeiladu ar waith Oz-Salzberger, trafododd Kontler y modd y daeth offeryn yr Oleuedigaeth, sef cyfieithu, yn gyfrwng ac yna'n nod i'r ymwybyddiaeth ieithyddol a diwylliannol newydd a ymledodd drwy Ewrop.⁶ Fel y gwelwn, nid oedd Cymru yn eithriad.

Cartrefoli ac estronoli

Daeth y pâr deuol 'cartrefoli' ac 'estronoli' yn dermau anhepgor mewn astudiaethau cyfieithu yn y blynyddoedd diweddar i ddisgrifio gwahanol fathau o gyfieithu. Mae cyfieithiad sy'n

‘cartrefoli’ (Saesneg ‘domesticate’) yn ceisio gwneud y deunydd estron yn gartrefol yn yr iaith darged; yn achos ein trafodaeth ni, byddai cyfieithiad o’r fath yn gwneud i’r deunydd Saesneg ymddangos yn Gymreig yn ogystal ag yn Gymraeg. Roedd cyfieithwyr Cymraeg yn yr 1790au (rai ohonynt yn fwy na’i gilydd efallai) yn ymwybodol o’r angen i ‘gartrefoli’.

Term Gwallter Mechain am hyn yw ‘cymhwyso’, ac fel hyn y cyflwyna ef ei lyfr *Diwygiad Neu Ddinystr* yn 1798: ‘Wedi ei dynnu allan o lyfr Saesneg a elwir *Reform or Ruin; a’i gymhwyso at ddealldwriaeth y Cymry*’. Cyfieithiad sy’n ‘estronoli’ (Saesneg ‘foreignize’), ar y llaw arall, yw un sy’n ceisio cadw rhywbeth o naws iaith y testun ffynhonell, a hynny ar draul llif y fersiwn newydd. Gwaith y theorydd dylanawadol Lawrence Venuti sy’n bennaf gyfrifol am boblogeiddio’r termau hyn, ac ef hefyd sy’n gyfrifol, i raddau, am y cynodiadau gwleidyddol y mae’r termau poblogaidd hyn wedi eu magu. Ystyriwyd cartrefoli yn beth drwg oherwydd barn Venuti fod y math hwn o gyfieithu yn goddiwylliannu,⁷ hynny ydy gwelir cartrefoli fel than o broses wleidyddol wrthun sy’n nacáu ac yn dileu gwahaniaeth diwylliannol. O safbwynt y darlennydd, mae’r testun a gartrefolwyd yn llifo’n rhwydd ac yn ymddangos yn gyfarwydd, felly mae’r profiad addysgol yn gymharol gyfyngedig ac ni fydd yn cael ehangu ei orwelion. Y cwbl a wêl y darlennydd mewn cyfieithiad o’r fath yw adlewyrchiad o’i ddiwylliant ei hun.⁸ Gwahanol iawn yw cyfieithiad sydd yn ‘estronoli’; mae cyfieithiad o’r fath yn un sy’n dangos parch at arwahanrwydd a gwahaniaeth diwyllianol, ac felly’n rhinweddol.⁹ Ym marn Venuti mae cyfieithu sy’n estronoli yn osgoi gwneud unrhyw ddrwg ethnosentrig ac yn cynnig ffordd o wrthsefyll hegemoni’r Saesneg yn y byd sydd ohoni.¹⁰ Beirniadwyd Venuti am fod ei derminoleg yn ansad,¹¹ ac mae’n amlwg hefyd bod y termau hyn yn annigonol wrth drafod ieithoedd lleiafrifol. Fel y dadleuodd Michael Cronin, nid goddiwylliannu yw gwneud gwybodaeth yn hygyrch mewn iaith leiafrifol, yn wir gall hyn gyfoethogi’r iaith honno, a hyd yn oed bod yn gymorth iddi oroesi (meddylier am y Beibl yn achos y Gymraeg). Meddai Cronin: ‘advocacy of non-fluent, refractory, exoticizing

strategies, for example, can be seen as a bold act of cultural revolt and epistemological generosity in a major language; but, for a minority language, fluent strategies may represent the progressive key to its very survival'.¹² Yn dilyn ei waith pwysig ar gyfieithu yn Iwerddon¹³ aeth Cronin ymlaen i arwain ym maes cyfieithu a lleiafrifoedd, ac mae ei *Translation and Globalization* yn tynnu sylw at fannau dall theori'r brif ffrwd.¹⁴

1790au

Mae'r 1790au yn gyfnod cyffrous yn hanes cyfieithu yn Ewrop. Er bod syniadau newydd am gyfieithu yn dod i'r amlwg yn yr Almaen, er enghraifft yng ngwaith y bardd Hölderlin,¹⁵ gan gyrraedd penllanw yn nhraethawd Schleiermacher 'Über die verschiedenen Methoden des Übersetzens' (1813), a anogai estronoli,¹⁶ dyma hefyd y ddegawd pan gyhoeddodd Alexander Fraser Tytler ei *Essay on the Principles of Translation* (1791), gwaith pwysig a anogai gartrefoli: '[a] key document in the canonization of fluency', meddai Venuti amdano.¹⁷ Cafodd y traethawd hwn dderbyniad da, ac fe'i ail-argraffwyd o leiaf ddwywaith, gydag ychwanegiadau o ddeunydd newydd bob tro.¹⁸ Yn achos Cymru yn yr un cyfnod, er bod cymaint o gyfieithu yn digwydd, nid oes gennym draethawd ar y pwnc. Rhaid bodloni felly ar y sylwadau a geir yma a thraw mewn rhagymadroddion, ac ar drafodaethau am weithiau penodol,¹⁹ ac yn bennaf oll rhaid darllen y cyfieithiadau hyn ochr yn ochr â'u ffynonellau er mwyn olrhain syniadau'r oes ar y grefft o gyfieithu. Yn y drafodaeth sy'n dilyn byddaf yn bwrw golwg ar gyfieithu ar gyfer y 'Cymry uniaith' mewn cyfnod o ferw deallusol nas gwelwyd ei fath o'r blaen, gyda'r chwyldro yn Ffrainc yn agor llygaid pobl i fyd newydd.

Cyfieithu didactig

Er mwyn addysgu'r Cymry am y byd newydd hwn, rhaid oedd cyfieithu ar ryw lefel, h.y. byddai'n rhaid cyfieithu syniadau a gwybodaeth o dramor os nad testunau penodol. Roedd cartrefoli yn ffordd dda o ddod â syniadau i afael y Cymry uniaith ac yn apelio at gyfieithwyr radicalaidd a theyrngarol fel ei gilydd, er y gwelwn fod rhai yn fwy llwyddianus nag eraill. Fel y gwyddys, roedd mwyafrif poblogaeth Cymru yn uniaith Gymraeg cyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.²⁰ Caiff y bobl hyn eu henwi yn nheitlau a rhagymadroddion nifer sylweddol o gyfieithiadau ac addasiadau'r cyfnod. Er enghraifft ar flaen ddalen pamffledi Jac Glan-y-gors - *Seren tan Gwmmwl a Toriad y Dydd* - gwelir y nodyn: 'wedi eu ysgrifennu er mwyn y Cymry uniaith'; ac meddai William Richards (Lynn) yn y teitl i'w gyfieithiad Cymraeg o'i waith ei hun *Ymborth ar Ddydd-Ymryd*: 'Agraphwyd dros y Cymry uniaith'.²¹ Dro arall cyfeirir atynt fel 'gwerinos tlodion', fel y gwna Morgan John Rhys, golygydd y cyfnodolyn arloesol a radicalaidd y *Cylchgrawn Cymraeg*,²² wrth ddadlau dros yr angen am addysg yn yr iaith Gymraeg.²³ Er mwyn cyfrannu at yr addysg hyn cyhoeddodd y *Cylchgrawn Cymraeg* nifer fawr iawn o gyfieithiadau yn ei bump rhifyn rhwng 1793 ac 1794, efallai hyd at 40% o'r deunydd;²⁴ ac mae cyfnodolion eraill y cyfnod, yng Nghymru fel yng ngwledydd eraill Ewrop, hefyd yn cynnwys cyfran uchel o gyfieithiadau.²⁵ Beth bynnag, yr awydd i addysgu a goleuo'u cydwladwyr sy'n uno'r cyfieithwyr. Yn ôl Morgan John Rhys mae'r diffyg addysg Gymraeg yn caethiwo'r Cymry: 'Paham y mae'n rhaid i'r Cymry fod fel caethion... Paham yr ydym yn fwy ynfyd nag un genedl arall try ymarferyd y ffordd wrthyn o ddysgu ein plant mewn iaith estronol...?'.²⁶ Felly ant ati, yn radicaliaid ac yn deyrngarwyr (er bod y syniad o addysgu'r bobl ychydig yn fwy dyrys iddynt hwy) i wneud cysyniadau newydd mor hygyrch â phosib. Weithiau ceir cymalau esboniadol yn y Gymraeg, ac weithiau â'r cyfieithwyr gam ymhellach trwy ychwanegu troednodiadau newydd addysgiadol ar gyfer y Cymry. Yn fynyich gwelir dau air Cymraeg yn cyfieithu un gair Saesneg, a hynny er mwyn sicrhau eglurdeb.

Gwelir hyn yn *Rhesymmau Iarll Stanhope yn erbyn y rhyfel presennol*, sef cyfieithiad di-enw o bamffledyn Saesneg o 1795.²⁷ Yma cyfieithir y gair Saesneg ‘expense’ fel dau air Cymraeg: ‘traul na thrafferth’. Ceisio eglurdeb mae’r cyfieithydd hwn eto pan mae’n osgoi cyfieithu’r gair ‘Policy’ o gwbl: yn hytrach na ‘best Policy’ dywed y Gymraeg ‘pethau a fydd orau’. Ymddengys mai blaenoriaeth David Davies, Castell-hywel wrth gyfieithu *Meddyliau yr Esgob Watson* (1793)²⁸ oedd gwneud pethau’n glir i’r darllenwyr Cymraeg. Ceir ganddo esboniadau (weithiau’n baragraff o hyd) ar dermau Saesneg fel ‘Jury’, ‘habeas corpus’, ‘civil Society’, ‘Dissenters’/ ‘Ymneillduwyr’, a hefyd ar enwau priod fel Confucius a Mahomet. Mae’n ymwybodol ei fod yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa na chafodd fawr o addysg, ac felly ychwanega ar ôl ‘Pekin’ ‘yn China’, a disgrifia ‘Constantinople’ fel ‘yn Nhwrci’. Yn yr un modd, nid yw’n disgwyl i’w ddarllenwyr fod yn gyfarwydd â’r ieithoedd clasurol, ac felly caiff y dyfyniadau Lladin a Groeg sydd yn y Saesneg eu trosi i’r Gymraeg ganddo. Ffordd arall o wneud yn siwr bod yr ystyr yn gwbl glir yw rhoi’r gair Saesneg gwreiddiol mewn cromfachau. Gwelir hyn hefyd yn *Rhesymmau Iarll Stanhope*, yn achos yr ansoddair ‘republican’, sy’n cael ei gyfieithu fel ‘dull o lywodraeth gwir wladwriaethol (republican)’. Yn aml yn nhestunau’r cyfnod gwelir y Saesneg mewn cromfachau yn lle’r esboniadau cwmpasog. Mae hyn yn dechneg a welir hefyd mewn testunau gwreiddiol Cymraeg, ac mae’r gymysgedd o ieithoedd yn codi cwestiynau am eirfa newydd. Ydy’r gair Saesneg yno oherwydd ei fod yn fwy cyfarwydd fel benthyciad na’r bathiad newydd, hyd yn oed i’r Cymry uniaith? Neu ydy’r gair Saesneg yno er mwyn helpu’r darlennydd i wella ei Saesneg?

Cymerwn enghraifft o air allweddol o’r cyfnod: Chwyldro/Revolution. Yn *Meddyliau’r Esgob Watson*, defnyddir y gair ‘Cyfnewidiad’ (wedi ei gamsillafu ‘cyfnewiad’) yn y

paragraffau agoriadol i gyfieithu'r gair Saesneg 'Revolution'. Defnyddir y gair yn y teitl hefyd, yn wahanol i'r Saesneg, sy'n rhoi llawer llai o wybodaeth. Ond ar yr un dudalen, mewn troednodyn swmpus sy'n ychwanegiad Cymraeg (yn hytrach na chyfieithiad o frawddeg Saesneg) defnyddir yn hytrach y benthyciad 'Refoliwsion'. Yma felly defnyddir 'cyfnewidiad' i gyfieithu'r term 'Revolution', ond mewn ychwanegiad esboniadol sy'n ddarn o Gymraeg wreiddiol, dewisir y term Saesneg mewn orgraff Gymraeg. Ai 'refoliwsion' felly oedd y dewis naturiol yn Gymraeg ar y pryd? Yn nes ymlaen yn y testun, ceir y ddau derm ochr yn ochr: 'cyfnewidiad neu y refoliwsion', fel pe na bai'r naill yn ddigon clir heb bresenoldeb y llall. Yn wir, mae 'cyfnewidiad' yn chwarae mwy nag un rôl yma. Mae'n cyfieithu'r gair 'Change' (mewn trafodaeth o ddiddymu'r mynachlogydd yn Ffrainc, rhywbeth yr oedd Watson o'i blaid), a hefyd y gair 'Innovation'. Dewiswyd 'cyfnewidiad' i gyfieithu 'revolution' efallai oherwydd nid yn unig roedd y gair yn gyfarwydd i'r darlennydd oherwydd ei ystyron eraill, ond hefyd oherwydd ei fod yn dofi'r term Saesneg peryglus. Os oedd gan y gair mwngrel 'refoliwsion' y fantais o fod yn haws i'w ddeall gan y darllenwyr oedd yn medru rhywfaint o Saesneg, roedd hefyd yn beryglus oherwydd gellid ei adnabod fel mewnforiwr syniadau newydd i destun Cymraeg. Neu efallai nad ystyrid y gair yn fenthyciad Saesneg gan y Cymry uniaith a'i clywodd ar lafar yn unig. Erbyn 1797 defnyddir y gair yn gyson gan John Owen, Machynlleth, yn ei bamffledyn *Golygiadau ar Achosion ac Effeithiau'r Cyfnewidiad yn Ffrainc*,²⁹ a hynny heb unrhyw esboniad mewn cromfachau.

Engreiffiau o gartrefoli didactig

Gwelir yng ngwaith cyfieithwyr Cymraeg yr 1790au nifer o ffyrdd o wneud i'r testun Cymraeg lifo'n rhwydd a naturiol. Weithiau gwneir y drafodaeth yn fwy cydnaws â thraddodiad llenyddol Cymru trwy gyfeirio at weithiau Cymraeg dylanwadol fel pan ddefnyddia Morgan John Rhys eirfa a delweddiaeth sy'n adleisio *Gweledigaethau'r Bardd*

Cwsg, Ellis Wynne wrth gyfieithu pennod o waith Volney i'r Gymraeg ar gyfer y *Cylchgrawn Cymraeg*.³⁰ A phan ychwanegir dyfyniad o'r *Bardd Cwsg* gan Gwallter Mechain yn ei *Diwygiad neu Ddinystr: wedi ei dynnu allan o lyfr Saesneg a elwir Reform or Ruin* (Oswestry, 1798), a drafodir isod. Weithiau cyflwynir dadl mewn ffordd fwy cyfarwydd i'r Cymry, trwy ychwanegu cyfeiriadaeth Feiblaidd neu adleisio ieithwedd grefyddol, fel y gwna Morgan John Rhys wrth drosi'r gair di-fflach 'necessaries' (yn golygu bwyd yn yr achos yma) fel 'bara', gan ychwanegu cyflythreniad: 'y mae'r bara mor brin'.³¹ Dro arall cyfnewidir enghreifftiau er mwyn adlewyrchu bywyd pob dydd y Cymry yn well, fel pan mae Jac Glan-y-gors yn cyfieithu 'pig' fel 'oen'.

Cartrefoli/ Jac Glan-y-gors

Mae Jac Glan-y-gors yn feistr ar ddofi deunydd a'i wneud yn fwy Cymreig, neu'n fwy perthnasol i ddarllenwyr yng Nghymru. Er na ellir ystyried ei bamffledi *Seren tan Gwmmwl a Toriad y Dydd* yn gyfieithiadau na hyd yn oed yn grynodedau o unrhyw weithiau gan Tom Paine, ceir ynddynt rannau sy'n sicr yn adleisio ac weithiau'n cyfieithu rhannau penodol o waith Paine, fel y nododd Damain Walford Davies,³² ac fel y dangosodd Marion Löffler yn fanwl yn ei thrafodaeth yn *Political Pamphlets and Sermons*.³³ O ddadansoddi'r adleisiau a'r pytiau o gyfieithu yng ngwaith Jac Glan-y-gors gallwn weld ym mha fodd y Cymreigiwyd llais Paine. Felly nid ceisio profi na dad-brofi dyled i Paine yw fy mwriad, ond gofyn sut yr addaswyd rhai o'i ddadleuon a'i enghreifftiau i'w gwneud yn fwy perthnasol i'r Cymry.

Mae Jac Glan-y-gors yn hepgor ysgolheictod a rhyngdestunoldeb o'r fersiwn Cymraeg, fel yn y drafodaeth o drethi yn *Seren tan Gwmmwl*.³⁴ Mae Paine yn adleisio Burke pan ddefnyddia'r gair 'pillar'. Trosiad yw 'pillar' yma am Dŷ'r Arglwyddi, sy'n osgoi llawer o drethi: 'the great ground and pillar of security to the landed interest', chwedl Burke. Yn y Gymraeg

cedwir y cyfeiriad at yr ‘arglwyddi’, ond collir y gair ‘pillar’, fwy na thebyg am na fyddai’r cyfeiriad at Burke yn golygu llawer i’r darllenwyr Cymraeg. Mae rhagor o enghreifftiau tebyg o hepgor cyfeiriadaeth a allai fod yn anghyfarwydd i’r Cymry uniaith. Mewn trafodaeth ar gyntafanedigaeth, mae *Toriad* yn hepgor y cyfeiriadau at Burke,³⁵ fel ag y mae *Seren* yn achos yn achos trafodaeth am y goron.³⁶

Mae ychwanegu fframwaith Beiblaidd yn dacteg gyffredin iawn yn y cyfnod. Yn *Toriad* y *Dydd* mae brawddeg Paine: ‘Male and female are the distinctions of nature’ yn troi mewn i gyfeiriad at Genesis yn Gymraeg: ‘yn wryw, ac yn fenyw y creodd efe hwynt’,³⁷ felly mae ‘nature’ yn Saesneg yn troi’n gyfeiriad Beiblaidd yn Gymraeg.³⁸ Yn achos Glan-y-gors, mae hyn yn arbennig o fanteisgar; tra’n dadlau yn erbyn crefydd o unrhyw fath, mae’n fodlon ymelwa ar hoffter ‘fy nghyd-wladwyr o ddarllen y Bibl’.³⁹

Ceir enghraifft wych o gartrefoli trwy gyfeiriadaeth ddiwylliannol mewn trafodaeth o goronau yn *Seren tan Gwmmwl* sydd wedi ei seilio yn fras ar baragraff o’r *Rights of Man*.⁴⁰ Mae adleisiau o’r paragraff i’w gweld yn y drafodaeth Gymraeg, gyda’r deunydd wedi ei ddatblygu a’i wasgaru dros nifer o dudalennau. Yn ei ymgais i danseilio’r cysyniad o frenhiniaeth etifeddol a gynrhychiolir gan y goron mae Paine yn cyfeirio at gap y cymeriad chwedlonol o’r oesoedd canol Fortunas, ac at gleddyf bren Harlequin (o’r *Commedia dell’arte*).⁴¹ Mae *Seren tan Gwmmwl* yn cartrefoli’r ddadl trwy gyferbynnu’r goron yn hytrach â’r cap a wisgir gan gymeriad y ffŵl yn yr Anterliwt.

Mae’n amlwg mai eglurdeb ac addysg sy’n bwysig i’r awdur. Cyfathrebu yn hytrach nag ysgolheictod a rhyngdestunoldeb. Dyna pam y mae’r Gymraeg at ei gilydd yn llai haniaethol

na'r Saesneg: pan ddefnyddia'r Saesneg enwau haniaethol fel *monarchy, fraud, nation, virtue*, mae'r Gymraeg yn esbonio trwy gyfeirio at enghreifftiau real (yn yr achos yma fel trethi ar lo a chanhwyllau) a chymariaethau (ceffyl sy'n taflu'r marchog fel trosiad am y bobl).⁴² Dyna pam y ceir hefyd yn *Seren tan Gwmmwl* enghraifft o fochyn yn troi'n oen.⁴³ Pan drafodir degymau, ac yn benodol y ffaith y gellid eu talu ar ffurf cnydau eraill (yn hytrach na thalu union ddegfed rhan o bob cnwd), cyfieithir 'wheat' fel 'gwenith', fel y byddid yn disgwyl, ac yn yr un modd cyfieithir 'hay' fel 'gwair'. Ond mae'r ffaith iddo gyfieithu 'pig' fel 'lamb' yn hytrach na 'mochyn' yn awgrymu bod Glan-y-gors yn awyddus i ysgrifennu am yr hyn oedd yn gyfarwydd i'w gynulleidfa. Ceir rhagor o dystiolaeth yn yr un paragraff pan mae cyfeiriad Paine at 'A Bishop of Durham, or a Bishop of Winchester', yn troi yn un cyffredinol at 'esgob', h.y. mae'n hepgor manylion sy'n amherthnasol i'w ddarllenwyr.

Ffordd arall o gartrefoli a geir gan Glan-y-gors yw ychwanegu cymeriad hanesyddol o Gymru - Gwrtheyrn – i'r drafodaeth. Defnyddir achos y '[b]renin o'n cenedl ein hunain',⁴⁴ i ladd ar frenhinoedd yn gyffredinol, ac ehangir y drafodaeth i gynnwys agwedd drefedigaethol Lloegr. Roedd y brenin drwg, meddai, 'wedi anafyd ei genedl hyd y dydd heddiw',⁴⁵ ac i'w feio am sefyllfa druenus Cymru: 'Dyma'r amser cyntaf y cafodd y Saeson eu llaw yn uchaf ar y Cymry',⁴⁶ ac o ganlyniad mae'r Cymry Cymraeg yn cael ei gormesu, a'u 'cadw mewn cwmmwl o anwybodaeth'. Ceisio gwneud iawn am hyn y mae Glan-y-gors trwy gyfrwng ei bamffledi, gan wneud y syniadau mor hygyrch ac mor berthnasol â phosib.

Ymwrthod â'r cyfle i gartrefoli

Hawdd deall cymhelliad y cyfieithwyr sy'n cartrefoli. Mae'r cyfieithwyr hynny sy'n ymwrthod â chyfleodd i gymhwyso'r deunydd ar y llaw arall yn codi cwestiynau. Wrth

ysgrifennu *Y Siars*,⁴⁷ sef cyfieithiad o *The Charge of Samuel, Lord Bishop of St. David's* gan Samuel Horsley,⁴⁸ nid yw John Harris yn cartrefoli o gwbl. Mae'r testun yn ymdrin ag anffyddiaeth a'r bobl gyffredin. Cedwir at y brawddegau hirfaith sydd yn nodweddu'r gwreiddiol. Gwelir Cymru o'r tu allan, trwy lygaid y gwladychwr o Saes. Pan ddisgrifir Cymru yng ngwaith Horsely fel lle anghysbell: 'remote corners of the island', cedwir perspectif y dieithryn wrth gyfieithu hyn fel 'y cornelau pellennig hyn o'r ynys'. Pan honna Horsley fod y Cymry yn bobl ddi-addysg: 'the least improved by early education', cedwir hyn: 'â'u gwybodaeth wedi ei chynhyddu leiaf'. Canlyniad y 'ffyddlondeb' i'r ffynhonell Saesneg yw creu testun Cymraeg sy'n amlygu agwedd drefedigaethol oedd ymhlyg yn iaith y gwreiddiol, ac sy'n benthg rhagfarn y Saes sy'n gweld Cymru o'r tu allan. Nid yw'n syndod nad oes yn y testun hwn ychwaith unrhyw ymgais i addysgu'r darllynydd; er enghraifft ni cheir yma nodiadau esboniadol, na geirfa mewn cromfachau, fel y ceir yn gyffredin yn nhestunau addysgiadol y cyfnod. Rhaid gofyn felly pa mor effeithiol y gallai'r testun fod i'r Cymry uniaith? Neu yn hytrach rhaid gofyn pam y cafodd ei gyfieithu os nad y Cymry uniaith oedd y gwir gynulleidfa darged – ai er mwyn cael ei weld yn cael ei gyfieithu?

Mae Edward Barnes yn un arall sy'n colli cyfleoedd i gartrefoli. Roedd yr ysgolfeistr a'r Methodist hwn o Gaerwys yn gyfieithydd profiadol a chynhyrchiol. Cyfieithodd bamffled gan William Fox,⁴⁹ yn ogystal â nifer o weithiau crefyddol, a theg fyddai dweud iddo gael ei ail-ddarganfod gan Wyn James, sydd wedi pleidio'i achos fel un o wrthwynebwyr cynharaf y gaethfasnach yn Gymraeg.⁵⁰ Yn 1796 cyhoeddodd *Rheolau llywodraeth yn y llan*⁵¹ sef cyfieithiad agos o waith poblogaidd Hannah More *Village Politics* (1793) a oedd yn ymateb teyrngar i waith Paine. Gwnaeth hyn, fel y dywed y teitl Cymraeg llawn: 'ar ddymuniad gwraig fonheddig', sef Hester Piozzi, a oedd yn treulio amser yng ngogledd Cymru,⁵² ac yn

poeni'n arw am aflonyddwch y bobl, ac am ddarparu iddynt rywbeth yn eu hiaith eu hunain a fyddai'n eu darbwyllo i ymdawelu ac aros yn ufudd a theyrngar.

Mae'r teitl Cymraeg yn rhyfedd o glogyrnaidd, heb unrhyw arlliw o gartrefoli na gwladgarwch: cedwir Great Britain fel 'Prydain Fawr', ychwanegir y gair 'rheolau' a rhoddir 'llywodraeth' am 'politics'. Ceir trafodaeth yn y testun hwn, sydd ar ffurf ymddiddan rhwng Jack a Tom, ar eirfa allweddol berw syniadol yr oes. Cyfeddyf Tom iddo ddarllen *Rights of Man* Thomas Paine, ac i hyn wneud iddo sylweddoli ei fod yn anhapus. Rôl Jack yw ei berswadio i gefnu ar y llyfr a'r geiriau a chysyniadau newydd. Mae Tom yn holi Jack am eiriau y geiriau y mae wedi eu darganfod yno, gan eu disgrifio fel 'geiriau caledion'. Mae'r geiriau hyn - organization/ trefnogaeth, function/ swyddogaeth, civism/ dinasyddiaeth, incivism/ anninasyddiaeth, equalization/ cydwastadrwydd, inviolability/ didorradwy, imperscriptible/ diaddysgadwy – i fod i swnio'n rhy anodd, fel bod Jack yn gallu datgan mai nonsens yw'r cwbl. Ffordd Jack o gyfleu hyn yw dweud nad yw'r geiriau hyn yn Saesneg: 'not English', h.y. maent yn bethau estron na ddylai Tom wastraffu ei amser arnynt. Ond mae cyfieithu'r ymadrodd i'r Gymraeg fel 'nad Saesneg' yn creu sefyllfa ryfedd iawn, oherwydd mae'n amlwg iawn mai Cymraeg yw iaith fersiwn Barnes. Mae cyfeirio at y Saesneg yn y fan hon yn fwy na cholli cyfle i gartrefoli, y mae'n newid byrdwn Hannah More.

Ond yn fwy trawiadol na hyn mae achos yr enwau priod, sy'n darllen fel rhestr o gyfleodd coll. Lleolir y ddialog rhwng y prif gymeriadau Jack a Tom yn nhafarn y 'Rose and Crown', ac yn Gymraeg cawn y trawslythreniad 'Rhos-and-Crown'. Pam cadw'r enw? A fyddai'n ymddangos yn estron, neu ydy'r benthyciad yn eistedd yn gysurus yn y testun Cymraeg? Pan gyfeiria'r Saesneg at 'Taunton beer' yn y gymhariaeth wych: 'our constitution is no more like the French than our beer is like their soup', mae'r Gymraeg yn cadw at 'Bir Taunton'.

Defnyddir enw lle arall o Wlad yr Haf pan mae Jack yn atgoffa Tom am y cyfnod a dreuliodd yn 'elusendy Bristol' (Bristol 'Firmary). Pam cadw'r lleoliad yn little England er ceisio apelio at ddarllenwyr gogledd Cymru? O ystyried traddodiad cryf y Cymry o greu enwau chwareus i bobl, mae'n syndod gweld Edward Barnes yn colli cyfle unwaith eto gyda'r cymeriadau yma, gan alw 'Neighbour Snip' yn 'Cymmydog Snip', 'Standish' yn aros fel mae, 'Farmer Furrow' yn 'Ffermwr Ffurrow' a 'Hackabout the butcher' yn '*Hack-about* y Cigydd'. Faint o synnwyr fyddai hyn yn ei wneud i'r Cymry uniaith? Pan honna Jack ei fod yn barod i farw dros 'Old England', cyfieithir hyn fel 'Lloegr', sydd yn creu cyfeiriad at rywle sy'n estron i'r darllenwyr Cymraeg. Mae 'ffyddlondeb' Barnes, felly, yn newid y testun o fod yn un gwladgarol-Seisnig i fod yn llyfr (Cymraeg) am rywle arall (Lloegr).

Yn gyffredinol mae *Rheolau Llywodraeth yn y Llan* yn brennaidd iawn o'i gymharu â gwaith rhai o gyfieithwyr eraill y cyfnod. Ai ymgais a geir yma i danseilio dymuniad y wraig fonheddig efallai? Tebycach bod Barnes yn ymgeisio'n rhy galed i brofi iddi hi ei fod wedi gwneud ei waith mor gywir â phosib, ac felly'n cyfieithu mor agos a phosib, hyd yn oed ar draul synnwyr cyffredin. Ar y llaw arall efallai mai diffyg talent yw'r esboniad: mae cyfieithiad Barnes o bamffled gwrth-gaethfasnach Fox mor agos at y Saesneg fel ei fod yn anidiomatig, neu, yng ngeiriau Wyn James: 'braidd yn afrwydd ei fynegiant'.⁵³

Efallai nad yw'n syndod bod awduron teyrngarol yn colli cyfleodd yn amlach na'r rhai radical, oherwydd bod rhoi addysg i'r bobl yn codi ofn arnynt. Ond, mae yna fath arall o deyrngarwch Prydeinig sydd hefyd yn genedlaetholgar-Gymreig, ac sy'n cartrefoli yn yr un modd â'r cyfieithiadau radicalaidd. Enghraifft o hyn yw cyfieithiad Gwallter Mechain o *Reform or Ruin: Take your choice*, Bowdler (1797). Cyhoeddwyd dau fersiwn Cymraeg o'r testun yn 1798, un gan Gwallter Mechain, *Diwygiad neu Ddinystr*; a'r llall gan William

Evans (Castell Tywy), *Diwygiad neu ddistryw: cymmerwch eich dewis!*.⁵⁴ Mae creadigrwydd Gwallter Mechain yn dangos yn glir y cyfleoedd a gollwyd gan Evans. Mae bodolaeth dau fersiwn Saesneg gwahanol (un llawn ac un byr) efallai'n esbonio rhai o'r gwahaniaethau rhwng y ddau gyfieithiad Cymraeg, ond nid all esbonio'r gwahaniaethau mwyaf diddorol: strategaethau cyfieithu gwahanol sy'n esbonio'r rhain.⁵⁵ Mae Gwallter Mechain yn ychwanegu rhyngdestunoldeb Cymraeg, trwy ddyfynnu'r *Bardd Cwsg*, fel y sylwyd uchod. Mae hefyd yn cymryd pob cyfle i wreiddio'r testun yn nhir Cymru. Er enghraifft pan mae'r Saesneg yn sôn am y Ffrancwyr yn glanio mae Evans yn dweud yn llythrennol: 'y rhai'n ddiu a diriasant', ond mae Gwallter Mechain yn ychwanegu'r enw: 'a ddaeth i Abergwaun'. Yn achos carchar Newgate mae Gwallter Mechain yn ei gartrefoli i fod yn 'gastell Fflint' neu 'gastell Caernarfon', sy'n creu testun mwy rhugl nag y byddai cynnig esboniad. Mae hyn yn dangos beth allasai Edward Barnes fod wedi ei wneud gyda'r lleoedd yn *Village Politics*. Mae Gwallter Mechain yn cymeryd gofal dros idiomau, fel pan mae'n harddu'r Saesneg 'Daily labour' i fod yn: 'chwys eu gwynebau a llafur eu breichiau'. Wrth harddu'r iaith mae'n hapus i ychwanegu geiriau, fel pan mae 'Paying to all their dues' yn dod yn: 'rhoddi eiddo Cesar i Cesar, ac eiddo Duw i Dduw'. A does dim ots ganddo newid y pwyslais, fel pan newidia 'BE GOOD' yn 'Byddwch Dduwiol!' (noder bod Evans wedi cyfieithu'n agosach: 'BYDDWCH DDA'). Mae Gwallter Mechain, yn wahanol i Evans, ac i Barnes, yn dangos sensitifrwydd i sefyllfa gymdeithasol wahanol. Pan mae'r Saesneg yn trafod faint o gig mae'r tlodion yn ei fwyta, mae'r cyfieithiad Cymraeg yn ychwanegu'r gair 'Lloegr', gan awgrymu nad yw'r tlodion yng Nghymru yn bwyta cig o gwbl bron. Yn yr un modd defnyddir bara gwyn yn y Saesneg gwreiddiol fel mesur o ffyniant y tlodion, ond hepgor y cyfeiriad at fara wna Gwallter Mechain, gan awgrymu nad oes gan y tlodion yng Nghymru fara gwyn o gwbl, gan eu bod yn llai llewyrchus na thlodion Lloegr.

Daw balchder mewn Prydeindod i'r amlwg yn y cyfieithu yma. Ble mae'r Saesneg yn awgrymu'r awyrgylch gorthrymus ym Mhrydain gan ddweud bod unrhyw un sydd o blaid gwladwriaeth yn gofyn am drwbwl: 'in danger of a rope', mae Gwallter Mechain yn condemnio'r syniad o wladwriaeth: 'ni eill undyn o ystyriaeth fyth ei dymuno', heb gydnabod bod ar bobl ofn siarad allan. Yn hyn o beth mae'n dangos ei hun yn fwy pleidiol i Brydeindod na mae'r Saeson, fel petai'n ceisio gwneud iawn am y ffaith nad yw'n Saes.

Cyfreithiau Plwyf.

Mae gwaith arloesol gan un o Gymry Llundain Edward Jones, *Cyfreithiau Plwyf* (1794)⁵⁶ yn tynnu ar sawl ffynhonell Saesneg, ond mae rhannau helaeth o'r testun yn gyfieithiadau agos o Everard Newton, *The Whole Duty of Parish Officers* (1792).⁵⁷ Mae'n bosib i Edward Jones hefyd ddefnyddio James Barry Bird *The Laws Respecting Parish Matters* (1799), ond ni ellir ei ystyried yn gyfieithiad o Bird.⁵⁸ Roedd Edward Jones neu Ned Môn (d. 1840) yn aelod o'r Gwyneddigion ac yn hanu o Sir Fôn, ac mae'n arwyddo fel aelod o'r 'Inner Temple' yn y gwaith hwn. Dengys y newidiadau bach yn y rhannau sy'n gyfieithiadau bod y cyfieithydd yn ceisio helpu'r darllynydd Cymraeg. Ceir esboniadau yn y Gymraeg, ar ffurf troednodiadau aml (yn wahanol i'r Saesneg), sy'n esbonio geirfa all fod yn anghyfarwydd, yn ogystal ag ymadroddion Lladin. Lle mae'r Lladin yn cael ei adael yn y Saesneg mae'n cael ei gyfieithu yn y troednodiadau Cymraeg. Caiff troednodiadu eraill eu hychwanegu, fel rhai i esbonio geiriau megis 'Rhydd-daliad' ('Freehold'), 'Crynwr' ('Quaker'), 'ynad' ('ordinary'), a 'didoliad' ('sequestered'). Weithiau ceir y gair Saesneg mewn cromfachau: 'Ysgrif-Drethiadau (Assessments)', or: 'sessiwn fawr (assize)'. Yn aml rhydd y Gymraeg wybodaeth ychwanegol, fel pan mae'n gyfieithu 'inhabitant' gyda'r esboniad: 'trigfannydd, sef y neb a fo yn byw yn y ty', a hefyd mae'r cyfieithydd yn ymestyn esboniadau byr yn y Saesneg nes

eu bod yn baragraffau cyfain yn y Gymraeg. Mae'n amlwg bod y cyfieithyd/awdur am i'r llyfr fod mor ddefnyddiol ac ymarferol â phosib.

Fel 'chwanegiad' ar y diwedd ceir 'Yn Dangos Gallu y Wardeniaid i Ymwrthod a Gweinidog Analluol', sef manylion achos enwog o 1773 o Drefdraeth yn erbyn gweinidog, Dr Bowles, am fod yn 'Gweinidog analluol', h.y. yn methu pregethu yn Gymraeg.⁵⁹ Yn ail ceir geirfa a thalfyriadau i helpu'r Cymry Cymraeg. Ond yn fwy trawiadol na'r manylion hyn mae'r traethawd: 'At y Darllenydd', sy'n rhagair pedair tudalen ar ddeg o hyd ar Ryddid sy'n cyfeirio at Montesquieu a Locke yn ogystal â Iolo Morganwg a William Owen Pughe. Defnyddir cymeriad y 'Cybydd crintachlyd' yma i gyfleu pa mor hunaol yw'r rhai sy'n mynnu mwy o Ryddid. Canmolir traethawd Eisteddfodol Gwallter Mechain ar 'Ryddid', a diolchir iddo am ei ran yn y dasg gyfieithu dan sylw: 'I'r gŵr yma mae yr Awdur yn rhwymedig am gyfieithad o barth mawr o'r gwaith hyn', ynghyd â'r geiriadurwr Gwilym Owain. Dyma'r unig beth sy'n dweud wrthom mai cyfieithiad ydyw (does yna ddim i awgrymu hyn ar y dudalen deitl). Efallai mai Gwallter Mechain ei hunan yw awdur y rhagair..

Tu hwnt i'r wedd ddidactig. Ychwanegiadau at bwrpas amgen

Roedd Williams Richards yn gyfieithydd deunydd crefyddol i'r Gymraeg.⁶⁰ Er mai yn Norwich, neu'r 'Jacobin City'⁶¹ yr oedd ei gartref a'i waith, byddai'n treulio ei hafau yn Sir Benfro ei febyd, ac roedd ganddo gysylltiadau ag Ymneulltiwyr yn yr ardal. Yn ei bamffledi Cymraeg a Saesneg pleidiai dros ddychwelyd i symllder yr Eglwys fore, dilynai Rousseau a Priestley wrth wrthod caethwasiaeth a diffyg goddefgarwch crefyddol. Dadleuai hefyd fod y rhyfel gyda Ffrainc yn anghydnaws â Christnogaeth.⁶² At hyn roedd addysgu'r Cymry, neu

‘[g]oleuo ei gydwladwyr’,⁶³ yn bwysig iddo. Cyhoeddodd ef *Food for a Fast-Day* cyn y diwrnod ymryd a drefnwyd ar gyfer 25 Chwefror 1795,⁶⁴ ac yna cyhoeddodd ei fersiwn Cymraeg ei hyn, wedi ei argraffu ‘ar gyfer y Cymru Uniaith’ yn hwyrach yn yr un flwyddyn: *Ymborth ar Dydd-Ymryd*.⁶⁵ Roedd diwrnodau ymryd swyddogol a chyhoeddus wedi cynyddu mewn nifer yn ystod y Rhyfel, wrth i’r Eglwys a’r llywodraeth geisio uno pobl Prydain o blaid y rhyfel. Parhaodd y syniad am dair canrif rhwng canol ur unfed ganrif ar bymtheg a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pwrpas y dyddiau hyn oedd ceisio cymorth Duw, trwy rym gweddi, mewn sefyllfa o argyfwng. Y pla yn 1563 oedd y tro cynta, ond yn ystod y ddeunawfed ganrif fe’u defnyddiwyd yng nghyd-destun rhyfel, a thyfodd y gwrthwynebiad i hyn yn raddol, cyn esgor ar ddadl agored a chwerw yn 1793. Bryd hynny cyhuddwyd y llywodraeth o fanteisio ar grefydd am resymau gwleidyddol.⁶⁶ Mae Richards yn erbyn dyddiau ymryd oherwydd eu natur cyhoeddus a chenedlaethol, gan nad yw’r elfennau hyn i’w canfod yn yr ysgrythurau ond yn hytrach wedi cael eu gosod o’r tu allan. Yn ei dyb ef, dim ond oddi wrth Dduw y gall gorchymyn i weddio dddod, ac ni ellir ysgrifennu gweddïau *ar ran* pobl. A ffars yw’r cwbl os ydy’r ddwy ochr mewn rhyfel yn gweddio i’r un Duw. Ysgrifenyd gweddïau ac emynau arbennig ar gyfer y dyddiau arbennig hyn, ac wrth gwrs fe gyfieithiwyd rhain i’r Gymraeg, er mwyn i’r Cymry uniaith allu bod yn ufudd i lywodraeth Prydain.⁶⁷

Mae llawer o *Ymborth ar Dydd-Ymryd* yn gyfieithiad agos o bamffled Saesneg Richards, ond mae hefyd yn llawn ychwanegiadau diddorol. Ceir peth tystiolaeth ei fod yn ceisio addysgu ei gyd-Gymry, ond dim ond nawr ac yn y man, fel pan mae’n rhoi troednodyn i esbonio ‘canibals’. Ond nid ydyw’r agwedd ddidactig yn amlwg iawn yn y cyfieithiad hwn, yn wir collir sawl cyfle. Ceir hefyd yn y troednodiadu esboniadol yn y Gymraeg ddeunydd sydd wedi ei gyfieithu o ffynonellau Saesneg eraill. Gall rhain ymddangos yn addysgiadol ar

yr olwg gyntaf, gan roi'r argraff bod Richards yn ceisio gwneud y deunydd yn fwy eglur a hygyrch, fel y gwnaeth cynifer o gyfieithwyr i'r Gymraeg yn y cyfnod, ond o graffu'n fanylach, gwelir eu bod yno, o bosib, at bwrpas amgen.

Mae'r tudalennau teitl yn dangos gwahaniaethau sylweddol. Efallai bod y Gymraeg wedi hepgor dyddiad y proclamasiwn oherwydd bod ychydig o amser wedi mynd heibio, a'r dydd ymryd hwn ddim bellach yn gyfredol, ond effaith hyn yw gwneud y cyhoeddiad Cymraeg yn fyfyrddod cyffredinol ar y pwnc yn hytrach na thestun amgylchiadol. Defnyddir dyfyniadau gwahanol o dan deitlau'r ddwy iaith, ac mae'r dyfyniadau Cymraeg yn fwy dewr na'r rhai Saesneg: 'Pan weddioch lawer, ni wrandawaf: eich dwylaw fydd lawn o waed' (Eseia i.15), a dyfyniad o Soam Jenyns: 'Pe bae cenedloedd crist'nogol yn genhedloedd o gristnogion, ni byddai dim ryfel mwyach'. Mae'r ychwanegiadau yng nghorff y testun yn cadarnau yr hyn a awgrymir gan y dyfyniad o'r Beibl: mae William Richards yn ddewrach yn Gymraeg nag ydyw yn Saesneg.

Hefyd, yn gyffredinol mae'r iaith yn gryfach yn y cyfieithiad Cymraeg. Er enghraifft daw 'and that he disapproves our conduct' yn: 'a bod Duw yn ffeidido ein hymddygiad, ac yn gwrthod ein hachos'. Ychwanegodd William Richards lawer o ddeunydd newydd mewn troednodiadau yn ei fersiwn Cymraeg. Mewn nodyn ar lygredigaeth yn yr Eglwys mae'r Gymraeg yn meiddio enwi'r rhyfel yn erbyn Ffrainc, dyw'r Saesneg ddim. Hefyd ychwanegir nodyn yn y Gymraeg sy'n condemnio Rwsia am fod yn waeth o lawer na Ffrainc, am eu bod yn rhyfela yn enw Cristnogaeth. O leiaf mae'r Ffrancwyr yn Anffyddwyr. Mae'r ychwanegiadau hiraf yn y cyfieithiad Cymraeg yn dudalennau gwrth-ryfel, lle byddid yn disgwyl, mewn cyd-destun diwrnod ymryd, condemniad llwyr o'r Ffrancwyr, gelyn Prydain.

Mae un ychwanegiad, sef troednodyn ar y gaethfasnach, a oedd yn gwbl absennol o'r Saesneg, yn adrodd cyfrolau. Yn y nodyn mae Richards yn dyfynnu (ac felly'n cyfieithu) o *The Repository* (1788), ac yn cyhuddo Archesgob Caergaint, ymysg eraill, o fod â chaethweision, gan adael y geiriau '*slave-trade*' fel y maent. Sut all hyn gyd-fynd â gwaith cenhadol? gofynna. Pam yr ychwanegwyd yn nodyn hwn yn Gymraeg? Nid am fod ryw wybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi ei fersiwn Saesneg, oherwydd teitl Saesneg o 1788 a ddyfynir yn yr ychwanegiad. Sut allai'r cyfeiriad hwn fod o ddefnydd i'r Cymry uniaith? Ai ar eu cyfer hwy y mae'n ysgrifennu? Ble roedd eraill yn ychwanegu esboniadau am resymau didactig ymddengys fod ychwanegiadau Williams Richards yn chwarae rôl amgen.

Hefyd, yn gyffredinol mae William Richards yn gadael i eirfa Saesneg (fel '*slave-trade*') fritho'r testun. Cedwir geiriau Saesneg pan ddefnyddir geirfa'r gelyn, er enghraifft daw '*a downright atheist, republican, and leveller, no doubt*' yn '*atheist, republican, a leveller* ydoedd yn ddiammeu'. Rhaid gofyn felly ai'r Cymru uniaith oedd ei wir gynulleidfa darged? Neu ydy'r iaith Gymraeg yn gyfrwng i fod yn fwy gwleidyddol feiddgar? Mae'n cyfeirio at yr awyrgyylch o ofn a'r '*yspïo a dychrynu dynion*' sy'n digwydd ym Mhrydain ar y foment, ond mae'n arwyddocaol mai dim ond yn y fersiwn Cymraeg y mae'n dweud hyn, nid yw'n meiddio dweud hyn yn Saesneg.

Yn achos *Cwyn y Custuddiedig*,⁶⁸ testun a ysgrifennwyd yn gyntaf yn Gymraeg gan Richards, awgrymwyd bod y deunydd yn rhy beryglus i'w gyhoeddi yn Saesneg. Gerth nodi mai dyma'r unig destun gwleidyddol yr ysgrifennodd Richards yn Gymraeg yn unig, ac roedd yn

boblogaidd, gan fynd i ail argraffiad. Cyhoeddwyd yn ddi-enw, ac er bod yn y pamffled hysbyseb ar gyfer fersiwn Saesneg yn dwyn y teitl *Triumphs of Innocency*, sydd ar y gweill, ymddengys nas cyhoeddwyd. A allai'r Gymraeg felly fod yn iaith fwy diogel mewn 'amser o berygl' (t. 18). Mewn llythyr at Samuel Jones ar 19 Mawrth 1789, esbonia Richards ei fod wedi gohirio ei fersiwn Saesneg oherwydd cynddaredd y gelyn,⁶⁹ ac â ymlaen i esbonio iddo dderbyn siars, trwy gyfrwng ei gyfeillion, oddi wrth offeiriad: 'that if I wrote & published in English, they would not answer for the consequence'.⁷⁰ Ymddengys bod y Gymraeg yn fodlon mentro i dir mwy peryglus na'r Saesneg.

Casgliad

Yn naturiol mae gan ieithoedd 'lleiafrifol' gyfraniad arbennig i'w wneud i faes astudiaethau cyfieithu, oherwydd eu bod yn dod i gysylltiad â chyfieithu yn amlach na ieithoedd eraill: '[they] have far more exposure to the fact of translation than majority languages';⁷¹ yn ôl Michael Cronin gellid meddwl amdanynt fel 'translation cultures par excellence'.⁷² Wrth i ddiwylliannau lleiafrifol gyfrannu i faes ehangach astudiaethau cyfieithu, bydd yr olaf yn elwa ac yn datblygu'n offeryn tipyn craffach. Yn benodol bydd yn dysgu na ddylid meddwl am gyfieithu fel gweithred wleidyddol niwtral. Ac ar y tir ffrwythlon hwnnw sydd yn ffin rhwng astudiaethau ôl-drefedigaethol ac astudiaethau cyfieithu heddiw, mae achos y diwylliannau Celtaidd yn arwain y ffordd, gyda gwaith arloesol Michael Cronin a Maria Tymoczko. Nid yw tystiolaeth Cymru yn yr 1790au yn cefnogi'r farn bod cartrefoli yn ddrwg ac estronoli yn dda, oherwydd mae'r strategaethau 'cartrefoli' a ddefnyddiwyd gan gyfieithwyr Cymru wedi lansio disgwrs wleidyddol newydd yn yr iaith, gan gyfrannu at barhad yr iaith. Felly, yn groes i syniad Venuti a'i ddilynwyr, yn achos iaith sydd o dan ormes, mae cartrefoli yn gallu bod yn chwyldroadol o dda, oherwydd mae'n golygu talu sylw manwl i nodweddion y diwylliant a'r iaith honno, a chreu gweithiau ynddi. Gall ychwanegu

tystiolaeth Cymru at astudiaethau cyfieithu danseilio'r pâr cyfarwydd cartrefoli ac estronoli, a chreu chwyldro yn y maes.

Gyda sylw adrannau llenyddiaeth mewn Prifysgolion yn troi fwyfwy at lenyddiaeth byd (world literature) mae pwysigrwydd astudiaethau cyfieithu ond yn mynd i dyfu. Eisoes llwyddasant i feddianu tir yr hen gategori cyfarwydd yna llenyddiaeth gymharol,⁷³ ac fe'n hanogir fwyfwy i feddwl nid yn nhermau 'llynyddiaeth genedlaethol' ond yn hytrach am system o amrywiadau sy'n ffurfio 'llynyddiaeth byd'.⁷⁴ Mae gan Cymru, sy'n batrwm o ddiwylliant o'r fath, gyfraniad arbennig i'w wneud o fewn i'r paradeim newydd traws-ddiwylliannol a thraws-genedlaethol hyn. O fabwysiadu'r perspectif newydd hwn gellir astudio'r 'cyrion' heb gael eich cyfyngu ganddynt.

¹ Mae'r traethawd hwn yn seiliedig ar bapur a draddodwyd yng nghynhadledd 'Cyfieithu i'r Gymraeg', Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 7 Mawrth 2015. Mae'r ymchwiliad yn ffrwyth prosiect a gyllidwyd gan yr AHRC 'Cymru a'r Chwyldro Ffrengig', ac rwy'n ddyledus iawn i'm cydweithwyr yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd am bod cymorth wrth imi fentro i faes ymchwiliad newydd, yn enwedig felly Marion Löffler.

² Gweler Susan Bassnett, *Translation Studies* (London: Routledge, 2002). Argraffiad cyntaf 1980, 142.

³³ Helena Miguélez-Carballeira, Angharad Price, Judith Kaufmann, 'Introduction: Translation in Wales: History, theory and approaches', *Translation Studies* 9:2 (2016), 125-36.

⁴Fania Oz-Salzberger, *Translating the Enlightenment: Scottish Civic Discourse in Eighteenth-Century Germany* (Rhydychen: Clarendon Press, 1995), 2.

⁵Fania Oz-Salzberger, 'The Enlightenment in Translation: Regional and European Aspects', *European Review of History/ Revue Européenne d'histoire. Special issue: Enlightenment and Communication: Regional Experiences and Global Consequences/ Numéro spécial: Les Lumières et la Communication : expériences régionales et conséquences globales* 13/3 (2006), 385-409 (386).

⁶'translation, the tool of Enlightenment cosmopolitanism, eventually became the medium (and target) of a new linguistic self-awareness and cultural nationalism', Lázló Kontler, 'Introduction: What is the (historians') Enlightenment today?', *European Review of History/ Revue Européenne d'histoire. Special issue: Enlightenment and Communication: Regional Experiences and Global Consequences/ Numéro spécial: Les Lumières et la Communication: expériences régionales et conséquences globales*, 13 :3 (2006), 357-71 (364).

⁷ '[It] performs a labour of acculturation', Lawrence Venuti, rhagarweiniad i Lawrence Venuti (gol.), *Rethinking Translation: Discourse, Subjectivity, Ideology* (London: Routledge, 1992), 5.

⁸ Yn ngeiriau Venuti: 'narcissistic experience of recognizing his or her own culture in a cultural other', Venuti, *Rethinking Translation*, 5.

⁹ 'foreignizing translation [...] is highly desirable today', Venuti *The Translator's Invisibility: A History of Translation* (Llundain: Routledge, 2008), cyhoeddwyd gyntaf 1995, 16.

¹⁰ 'foreignizing translation seeks to restrain the ethnocentric violence of translation', Venuti, *The Translator's Invisibility*, 16.

¹¹ Gweler er enghraifft Douglas Robinson, *Translation and Empire: Postcolonial Theories Explained* (Manchester: St. Jerome Publishing, 1997), 108-13, a Maria Tymoczko, 'Translation and Political Engagement: Activism, Social Change and the Role of Translation in Geopolitical Shifts', *The Translator*, 6/1 (2000), 23-47. Atebodd Venuti rai o'r

cyhuddiadau mewn argraffiad newydd (2008) o *The Translator's Invisibility*, gweler yn enwedig t. 19.

¹² Michael Cronin, *Translation and Globalization* (London: Routledge, 2003), 140-1.

¹³ Michael Cronin, *Translating Ireland: Translation, Languages, Cultures* ([Cork]: Cork University Press, 1996).

¹⁴ Cronin, *Translation and Globalization*. Gweler hefyd gofnod Cronin ar 'minority' yn Mona Baker and Kirsten Malmkjaer, *Routledge Encyclopedia of Translation Studies* (London: Routledge, 2009), ynghyd â sylwadau Cronin ar y ffaith nad oedd 'minority' wedi ei gynnwys yn eu hargraffiad cyntaf, *Translation and Globalization*, 139.

¹⁵ Gweler Charlie Louth, *Hölderlin and the Dynamics of Translation* (Rhydychen: Legenda 1998), 59.

¹⁶ Ceir cyfieithiad Saesneg yn Douglas Robinson, *Western Translation Theory: From Herodotus to Nietzsche* (Manceinion: St. Jerome Pub., 2002, argraffiad cyntaf 1997), 225-38.

¹⁷ Venuti, *The Translator's Invisibility*, 58. Cymharer Susan Bassnett: 'first systematic study in English of the translation process', *Translation Studies* (London: Routledge, 2002), 67.

¹⁸ 1797 ac 1813.

¹⁹ E.e. y drafodaeth yn y *Geirgrawn* am *Seren Tan Gwmmwl* gan Jac Glan-y-gors. Gweler Marion Löffler, *Welsh Responses to the French Revolution: Press and Public Discourse 1789-1802* (Cardiff: University of Wales Press, 2012), 51.

²⁰ Geraint H. Jenkins, Richard Suggett ac Eryn M. White, 'The Welsh Language in Early modern Wales', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *The Welsh Language before the Industrial Revolution* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), 45–50.

²¹ Teitl llawn *Ymborth ar Dydd Ymryd. Neu ychydig o resymmau prydlawn tu ag at wasaneth y bobl ddaionus hynny ag sydd yn credu ym mhriodoldeb ac effaith ymrydiau cyhoedd ... Argraphwyd dros y Cymry Uniaith* (Caerfyrddin: s.l., 1795).

²² *Cylchgrawn Cymraeg neu Drysorfa Gwybodaeth*, sefydlwyd, golygwyd ac ar y cyfan ysgrifenyddwyd gan Rhys. Ar sillafiad y teitl gweler Frank Price Jones yn *JWBS*, 8:2 (1955), sy'n dweud mai rhifynnau 1 a 2 yn unig y dylid eu sillafu fel 'Cymraeg'.

²³ Defnyddir y term yn 'Myfyrdodau ar yr Amserau', *Cylchgrawn*, 5 (1794), 242.

Dechreuodd ddadlu yn gyhoeddus dros addysgu'r 'gwerinos tlodion' yn Gymraeg yn rhifyn cyntaf y *Cylchgrawn Cymraeg* (1793). Gweler ymhellach eitemau 5.9 a 7.6 yn Löffler, *Welsh Responses*.

²⁴ Mae Hywel Davies wedi amcangyfrif bod 'dros 40 y cant o gynnwys y *Cylchgrawn* yn gyfieithiad uniongyrchol neu'n grynodedb Cymraeg o ffynonellau Saesneg, Americanaidd neu Ffrangeg', Hywel M. Davies, 'Morgan John Rhys, "Y Cylchgrawn Cymraeg", a'r Cymry uniaith', *Efrydiau Athronyddol* 62 (1999), 40-54 (46); gwler am drafodaeth lawnach ei "Transatlantic Brethren": A Study of English, Welsh and American Baptists with Particular Reference to Morgan John Rhys (1760-1804) and his Friends' (traethawd anghyhoeddegig Prifysgol Cymru, 1984), 329.

²⁵ Dangosodd Marion Löffler hyn yn ei hastudiaeth o gyfnodolion yr 1790au, gan ychwanegu: 'In my opinion, at least 30% of the contributions to *Y Drysorfa Gymmysgedig* and *Y Geirgrawn* were rendered from English sources in England and North America', Marion Löffler, *Welsh Responses to the French Revolution: Press and Public Discourse 1789–1802* (Cardiff: University of Wales Press, 2012), 46. Yn achos cyfnodolion Ewrop yn gyffredinol dywedodd Fania Oz-Salzberger: 'Beyond acknowledged translations lurked an unknown number of unacknowledged translations and adaptations', *Translating the Enlightenment*, 398.

²⁶ *Cyfarwyddyd ac Annogaeth*, t. 48. Dyfynnir yn John James Evans, *Morgan John Rhys a'i Amserau* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1935), 63.

²⁷ *Earl Stanhope's Protest House of Lords, Tuesday, January 6, 1795* (London: J. Smith and J. Burks, 1795). Pamffled wyth tudalen o hyd sy'n condemnio'r rhyfel ac yn canmol y Ffrancwyr, a'r deunydd wedi ei rannu'n bymtheg pwynt. Mae'n gyfieithiad agos.

²⁸ Cyfieithiad yw *Meddyliau yr Esgob Watson am y cyfnewidiad diweddar yn Llywodraeth Ffraingc, rhydd-did crefyddol, a hawl yr Ymneillduwyr. Wedi eu gosod allan ger bron gweinidogion Esgobaeth Llandâf, ar ei Ymweliad diweddaf ... Mehefin, 1791* (Caerfyrddin: J. Ross, 1793) o Richard Watson, *A Charge Delivered to the Clergy of the Diocese of Landaff, June 1791* (Llundain: Thomas Evans, 1792). Meddylir mai David Davies, Castell-hywel yw'r cyfieithydd er na welir ei enw arno. Mae copi ei fab (a gedwir yn llyfrgell Caerdydd) yn awgrymu hyn, er i Thomas Shankland awgrymu mai Morgan John Rhys oedd y cyfieithydd. Gweler John James Evans, *Dylanwad y Chwyldro Ffrengig ar Lenyddiaeth Cymru* (Lerpwl, Hugh Evans a'i feibion, 1928), 58, hefyd Evans, *Morgan John Rhys a'i Amserau* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1935), 124.

²⁹ (Machynlleth: E. Pritchard, 1797).

³⁰ Ymddangosodd 'Hynod Weledigaeth Gwr Bonheddig o Ffraingc, tra ydoedd ymhell oddi Cartref, yn ymdeithio yn un o Wledydd y Dwyrain', yn rhifyn Tachwedd 1793 o'r *Cylchgrawn Cymraeg*, mae'n debyg mai Morgan John Rhys oedd y cyfieithydd. Nodir y ffynhonell yn glir fel y cyfnodolyn Saesneg *The Patriot*, yn hytrach na'r Ffrangeg *Les Ruines, ou Méditations sur les revolutions des empires* (Paris : 1791). Ar y berthynas rhwng y fersiynau Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg, gweler Heather Williams, 'Cymru, y Chwyldro Ffrengig a Gwyn Alf Williams: ail-asesu'r dystiolaeth', *Llên Cymru*.

³¹ Ibid.

³² Sonia am ei 'significant debt to Paine's *Rights of Man*', sy'n cynnwys 'some passages of straight translation', Damian Walford Davies, *Presences that Disturb: Models of Romantic*

Identity in the Literature and Culture of the 1790s (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002), 77.

³³ Pwysleisia hi ‘Close analysis reveals that, while they are part of the discourse initiated by Burke’s *Reflections on the Revolution in France* and Paine’s *Rights of Man*, the labels “translation” and “summary” which many Welsh scholars have used with regard to them do not hold true’, Marion Löffler, with Bethan Jenkins, *Political Pamphlets and Sermons from Wales 1790-1806* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), 55-56. Serch hynny, ceir ganddi restr o’r rhannau yn nhestunau Jac Glan-y-gors sy’n adleisio darnau o weithiau Paine, *ibid.*, 57, yn ogystal â sylw manwl at adleisiau o’r fath yn y nodiadau i’w golygiad, tt. 111-90. Yn fy nhrafodaeth bydd pob cyfeiriad at *Seren Tan Gwmmwl a Toriad y Dydd* at y golygiad newydd a geir yn y llyfr hwn, a phob cyfeiriad at waith Paine at Mark Philp (gol.), *Thomas Paine Rights of Man, Common Sense and other political writings* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1998).

³⁴ *Seren*, Löffler, *Political Pamphlets and Sermons*, 124, Philp (gol.), *Thomas Paine Rights of Man, Common Sense and Other Political Writings*, 278.

³⁵ *Toriad*, *ibid.*, 167, Philp (gol.), *Thomas Paine Rights of Man, Common Sense and Other Political Writings*, 281.

³⁶ *Seren*, Löffler, *Political Pamphlets and Sermons*, 119, Philp (gol.), *Thomas Paine Rights of Man, Common Sense and Other Political Writings*, 175, 175-76.

³⁷ Genesis 1: 27.

³⁸ *Toriad*, Löffler, *Political Pamphlets and Sermons*, 166, *Common Sense*, Philp (gol.), *Thomas Paine Rights of Man, Common Sense and Other Political Writings*, 11.

³⁹ *Seren*, Löffler, *Political Pamphlets and Sermons*, 113.

⁴⁰ *Seren*, Löffler, *Political Pamphlets and Sermons*, 119, Philp (gol.), *Thomas Paine Rights of Man, Common Sense and Other Political Writings*, 175.

⁴¹ Ar hyn gweler Philp (gol.), *Thomas Paine Rights of Man, Common Sense and Other Political Writings*, 175.

⁴² *Seren*, Löffler, *Pamphlets*, 119.

⁴³ Marion, *Pamphlets* 129, Philp (gol.), *Thomas Paine Rights of Man, Common Sense and Other Political Writings*, 138.

⁴⁴ *Seren*, Löffler, *Pamphlets*, 116.

⁴⁵ *Seren*, Löffler, *Pamphlets*, 118.

⁴⁶ *Seren*, Löffler, *Pamphlets*, 117.

⁴⁷ Teitl llawn: *Y Siars a roddwyd gan Samuel, Arglwydd Esgob Ty Ddewi, i offeiriaid ei Esgobaeth, ar ei Ymweliad Cyntaf... 1790. ... Wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg gan y Parchedig John Harris, Curad Llanfrynach* (Aberhonddu: William a George North, 1791).

⁴⁸ Teitl llawn: *The Charge of Samuel, Lord Bishop of St. David's to the Clergy of his Diocese Delivered at his Primary Visitation in the Year 1790* (London, 1791). Am drafodaeth o ddau bamffledyn a ysgrifenydd mewn ymateb i'r gwaith hwn gweler Löffler, *Pamphlets*, 20.

⁴⁹ Trafodir yn Wyn James, 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790-1840', *Taliesin*, 119 (2003), 37-60 (44).

⁵⁰ Wrth gloi ei drafodaeth dywed: 'dichon y gellid gosod y Methodistiaid Edward Barnes a John Elias (heb sôn am Williams Pantycelyn) yn uwch yn y rhengoedd na Iolo o ran eu dylanwad ar y farn gyhoeddus', E. Wyn James, 'Morgan John Rhys a Chaethwasiaeth Americanaidd', yn *Canu Caeth: Y Cymry a'r Affro-Americaniaid*, gol. Daniel G. Williams (Llandysul: Gwasg Gomer, 2010), 2-25 (18). Ond noder ei fod yn cadw'r lle mwyaf blaenllaw ar gyfer Morgan John Rhys.

⁵¹ Full title *Rheolau llywodraeth yn y llan, yn annerch at holl grefftwy, gweinidogion, a gweithwyr fesur y dydd, ym Mhrydain fawr. Gan Wil Ysglodyn [i.e. H. More]. Y degfed*

argraphiad, wedi ei gyfieithu ar ddumuniad Gwraig Fonheddig, gan Edward Barnes

(Croesoswallt: W. Edwards, 1796), ailargraffwyd 1797.

⁵² Trafodir ei Chymreictod a'i pherthynas â Chymru yn John Mee, 'A good Cambrio-Briton: Hester Thrale Piozzi, Helen Maria Williams and the Welsh sublime in the 1790s', yn 'Footsteps of Liberty and Revolt': *Essays on Wales and the French Revolution*, gol. Mary-Ann Constantine a Dafydd Johnston (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2013), 213-30, a hefyd yn Sarah Prescott, 'Women travellers in Wales: Hester Lynch Thrale Piozzi, Mary Morgan and Elizabeth Isabella Spence', *Studies in Travel Writing* 18: 2 (2014), 107-21. Ar y cwestiwn penodol a oedd hi'n medru'r Gymraeg gweler B. G. Charles, 'Letters of Hester Piozzi', *National Library of Wales Journal*, 2:1 (1941), 54, sy'n dadlau nad oedd ganddi lawer o Gymraeg. Serch hynny mae'n werth nodi bod Iolo Morganwg wedi ei disgrifio hi fel 'a Welsh woman and speaks Welsh', llythyr at Margaret Williams, 21 Rhagfyr 1792, dyfynnir yn Cathryn Charnell-White, 'Women and gender in the private and social relationships of Iolo Morganwg', yn *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg*, gol. Geraint H. Jenkins (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2005), 359-81 (376).

⁵³ Ibid. t. 9. Cyferbynia Wyn James gyfieithiad Edward Barnes ag eiddo Morgan John Rhys. Rwy'n ddiolchgar iawn i Wyn James am ei sylwadau ar y pwynt hwn.

⁵⁴ Awgrymwyd fel hyn am y ddau fersiwn: 'William Evans of Towy Castle's version would presumably serve the South, while Walter Davies' would circulate mostly in Central and North Wales', William Philip Williams, *The Influence of the French Revolution on the Political and Social Life of Wales*, (traethawd anghyhoeddedig Prifysgol Cymru, 1925), 71-72.

⁵⁵ Cyfeiria Gwallter Mechain yn ei lythyr rhagarweiniol at y fersiwn byr Saesneg, ond fel arfer mae ei gyfieithiad yn dilyn y fersiwn hir. Mae'n gyfarwydd â'r ddau fersiwn.

⁵⁶ Teitl llawn *Cyfreithiau Plwyf; sef Holl Ddyledswydd y Swyddogion, Wardeiniaid, neu Brocatorion, Goruwchwylyr y Tylodon, neu Overseers, Golygwyr y PRIF-FFYRDD; ac Eraill Swyddogion Plwyf o Bob Gradd... gan Edward Jones, Inner Temple* (Llundain-Llanerchymedd, 1794)

⁵⁷ Nid yw trefn y penodau yr un fath, e.e. rhydd y Saesneg ‘Constable’ yn ail, a’r Gymraeg ‘Golygwyr y Prif-Ffyrdd’. Weithiau mae hyd y penodau yn wahanol yn y Gymraeg a’r Saesneg, yn ogystal â’r drefn fewnol (fel yn achos ‘Constable’). Dro arall ceir cyfatebiaeth agos, fel yn achos ‘Golygwyr y Prif-Ffyrdd’/ ‘Surveyors of the Highways’. Yma mae’r drefn fewnol yr un fath, heblaw am ychwanegiad yn y Gymraeg am ffyrdd tyrpeg.

⁵⁸ Wrth gwrs gall y Gymraeg fod yn tynnu ar yr un ffynhonell Saesneg â Bird.

⁵⁹ Gweler Geraint Jenkins, “Horrid Unintelligible Jargon”: The Case of Dr Thomas Bowles’, *Welsh History Review* 15:4 (1991), 498-523.

⁶⁰ Cyhoeddodd rannau o Destament Newydd Wakefield yn Gymraeg o dan y teitl *Cymreigiad o amryw Fanau yn y Testament Newydd, Yn ôl cyfieithiad Saesneg diweddar y dysgedig a’r enwog Gilbert Wakefield: neu, Bapuryn Achlysurol, (Rhifyn y Trydydd;) wedi ei amcanu er mwyn cefnogi Yspryd ymofyniad, a helaethu Gwybodaeth Ysgrythurol yn mysg y Cymru, ac i’w harwain hwy i ystyried, y dichon nad yw y Cyfieithiad cyffredin o’r Beibl, er cystled ydyw, ddim yn un cwbl ddiwall neu anffaeledig* [Carmarthen, n.d.], a hefyd *Pigion allan o Destament Williams Salesbury; (yr hwn oedd y cyntaf erioed a argraphwyd yn yr Iaith Gymraeg) ynghyd a sylwiadau cymhwysiadol at amryw o amgylchiadau ag sydd wedi cymmeryd lle yn ddiweddar yn Nghymru: neu, Bapuryn Achlysurol (Rhifyn y pedwarydd) yn cynnwys, ynmysg pethau eraill, ystyriaethau difrifol ar y gwahanol gyfieithiadau Cymreig o’r ysgrythur, ac ar yr elyniaeth sudd wedi ymddangos yn erbyn y Cymreigiad diweddar o amryw fanau yn y Testament Newydd. – Mewn Llythyr at Dafydd Dafies, or ‘Scubor fawr, yn Llandyfriog, wrth Emlyn.* (Whittingham, Lynn, 1802).

⁶¹ Gweler C.B. Jewson, *The Jacobin City: A Portrait of Norwich in its Reaction to the French Revolution 1788-1802* (Glasgow a Llundain: Blackie and Son, 1975).

⁶² Gweler William Richards a John Oddy, *The Writings of the Radical Welsh Baptist Minister, William Richards, 1749-1818* (Lewiston, NY: Edwin Mellen Press, 2008).

⁶³ G. J. Williams, 'Papurau Achlysurol William Richards O Lynn', *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 7/1 (1950), 32-36 (32).

⁶⁴ Ni cheir dyddiad cyhoeddi arno, ond mae'n ei arwyddo 'Feb. 13 1795' ar ddiwedd y testun.

⁶⁵ Teitl llawn *Ymborth ar Dydd Ymryd. Neu ychydig o resymmau prydlawn tu ag at wasaneth y bobl ddaionus hynny ag sydd yn credu ym mhriodoldeb ac effaith ymrydiau cyhoedd ... Argraphwyd dros y Cymry Uniaith* (Caerfyrddin: s.l., 1795).

⁶⁶ Gweler Roland Bartel, 'The Story of Public Fast Days in England', *Anglican Theological Review*, 37/3 (1955), 190-200. (190).

⁶⁷ Dyddia'r fersiynau Cymraeg cynharaf o weddïau swyddogol y gwyddom andanynt o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, gweler Owen H. Morris, 'Ffurfiâu Gweddi', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru/ National Library of Wales Journal*, 23/2 (1983), 130-40. (130).

⁶⁸ Teitl llawn: *Cwyn y Custuddiedig a griddfanau y carcharorion dieuog, neu, ychydig o hanes dyoddefiadau diweddar Thomas John a Samuel Griffiths, y rhai wedi goddef Gorthrymder tost a Chaethiwed called, dros chwech neu saith o Fisoedd yn ddi-achos, a gawsant eu rhyddhau, o'r diwedd, yn yr uchel Eisteddfod, neu y Sesiwn mawr diweddaf, yn Hwlffordd : er dirfawr Siomedigaeth i'w Gelynyon gwaedlyd a dideimlad* (Carmarthen: Ioan Evans, 1798), ceir golygiad o'r testun ynghyd â chyfieithiad Saesneg ohono yn Löffler, *Political Pamphlets and Sermons*, .

⁶⁹ ‘it is deferred for the presence owing to the rage of the enemy’, William Richards at Samuel Jones, Llundain, 19 Mawrth 1798, dyfynnir yn Richards ac Oddy, *The Writings of the Radical Welsh Baptist Minister, William Richards, 1749-1818*, 362.

⁷⁰ Ibid.

⁷¹ Michael Cronin, 'History, Translation, Postcolonialism', yn Sherry Simon a Paul St-Pierre (goln), *Changing the Terms: Translating in the Postcolonial Era* (Ottawa: University of Ottawa Press, 2000), 33-52 (45).

⁷² Cronin, *Translation and Globalization*, 139.

⁷³ Ar y farn bod llenyddiaeth gymharol bellach yn ddim amgen atodiad i astudiaethau cyfieithu gweler Susan Bassnett, *Comparative Literature: A Critical Introduction* (Rhydychen, Blackwell, 1993), 161. Gweler hefyd y drafodaeth ar dranc llenyddiaeth gymharol yn Clive Scott, *Channel Crossings* (Rhydychen: Legenda, 2002).

⁷⁴ ‘system of variations which constitute “world literature”’, Clive Scott, p. 241.